Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Seilwaith (Cymru)
## Crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Medi 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7536**
E-bost: **francesca.howorth@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# **Bil Seilwaith (Cymru)**
# Crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Medi 2023

**Awdur:**
Francesca Howorth

Mae'r briff hwn yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) ar y Bil Seilwaith (Cymru). Nid yw'r ymatebion wedi'u cynnwys yn llawn – mae lincs i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd yn Atodiad 1.

# Cynnwys

**Crynodeb o'r dystiolaeth....... 1**

Diffyg manylion ar wyneb y Bil ....... 1

Pryderon nad yw'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi'r broses newydd ....... 2

Cymorth cyffredinol i gategorïau prosiectau seilwaith arwyddocaol... 3

Diffinio "arwyddocaol"....... 4

Trothwyon dewisol ....... 4

Pwerau i gyfarwyddo ....... 4

Barn gymysg o ran nodi amserlen statudol o 52 wythnos ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau ....... 5

Camau'r broses ....... 5

Dryswch ynghylch statws a hierarchaeth polisïau cynllunio ....... 6

Safbwyntiau cymysg o ran y disgresiwn a roddir i Awdurdodau Archwilio ....... 7

Diffyg consensws o ran pwy ddylai'r penderfynwr fod....... 7

Mae'r angen posibl am gamau gorfodi yn bryder i awdurdodau cynllunio lleol ....... 7

Dylid dysgu gwersi o ddeddfwriaeth debyg yn Lloegr ....... 8

Prosiectau trawsffiniol....... 8

Dylai'r drefn newydd sicrhau y cynhelir mesurau gwarchod amgylcheddol ....... 9

Pwysigrwydd cynnwys y cymunedau yr effeithir arnynt ....... 9

**Atodiad 1 – Ymatebion i'r ymgynghoriad ....... 10**

# Crynodeb o'r dystiolaeth

Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn **cefnogi'r Bil**. Maent yn cytuno bod angen proses gydsynio unedig. Dyma a ddywed y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru:

> RTPI Cymru has long called for a regulatory framework to enable an effective infrastructure consenting regime ... on large infrastructure projects, providing structure and clarity...The recent rise in renewable energy applications on the Developments of National Significance (DNS) register is one indicator of the increasing volume of infrastructure applications coming down the line.

Mae Wales and West Utilities yn awgrymu nad yw'r broses bresennol ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn addas i'r diben a'i bod yn rhoi Cymru o dan anfantais o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU. Dywed Cyngor Sir Ynys Môn fod **y broses bresennol yn hir ac yn aneffeithlon** a bod hynny'n creu ansicrwydd o ran cael cydsyniad ar gyfer prosiectau a'u cyflawni. Cydnabu fod y Bil yn gyfle i roi sicrwydd, cysondeb a chreu gofyniad o ran safon y ceisiadau yn ogystal â gofyniad bod lefel briodol o ymgysylltu â'r cyhoedd / y gymuned.

Er bod yr holl ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno trefn gydsynio newydd, fe'i nodwyd yn gyson gan nifer o'r ymatebwyr fod **angen eglurder wrth drosglwyddo o'r trefniadau cyfredol ar gyfer** datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi bod angen eglurder ar ddatblygwyr a'r cymunedau yr effeithir arnynt y bydd unrhyw waith paratoi (cyn gwneud cais) a wnaed cyn cyflwyno'r drefn newydd yn parhau'n ddilys.

Er ei bod yn cefnogi'r Bil, rhybuddia'r Athro Hannah Hickman o Brifysgol Gorllewin Lloegr fod angen taro cydbwysedd gofalus rhwng ceisio sicrhau y caiff prosiectau eu cydsynio'n gyflym a'r canlyniadau posibl o ran cyflawni'r gwaith yn y dyfodol.

## Diffyg manylion ar wyneb y Bil

Cydnabu Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn y **Senedd ar 13 Mehefin** y bydd llawer o fanylion y broses newydd yn cael eu gadael ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Dadleuodd fod hyn yn briodol er mwyn rhoi hyblygrwydd:

Pan holwyd y Gweinidog ar y mater yn ystod sesiwn dystiolaeth gychwynnol ar y Bil ym mis Gorffennaf, **dyma a ddywedodd wrth y Pwyllgor**:

> …we want to be able to keep it up to date, and we want to be able to make sure that we take advantage of emerging technologies…we don't want to get ourselves into a mess where we've got a process Bill that ties us to particular things that, within even the life of this Senedd, will be just out of date…

Parhaodd y Gweinidog gan ddweud:

> there will be a series of processes [that] will need to be refreshed with probably quite a lot of regularity, particularly in the early days.

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **datganiad o fwriad polisi** ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil.

Awgryma Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn anodd barnu a fydd y Bil yn cyflawni ei fwriad polisi. Dywed fod "natur fframwaith y Bil" yn ei gwneud yn heriol deall y goblygiadau llawn i'w swyddogaethau statudol.

Mae NFU Cymru yn cytuno y **dylid rhoi rhagor o fanylion ar wyneb y Bil**. Mae'n awgrymu y dylid dilyn dull tebyg i'r hyn a wnaed ar gyfer ***Deddf Cynllunio 2008*** (Deddf 2008). Cyflwynodd Deddf 2008 gyfundrefn gydsynio newydd ar gyfer prosiectau seilwaith mawr yn Lloegr a phrosiectau heb eu datganoli yng Nghymru. Awgryma NFU Cymru fod Deddf 2008 yn cynnwys rhagor o fanylion ac y dylid defnyddio dull gweithredu tebyg ar gyfer y Bil.

Dywed Bute Energy mai un o brif fethiannau'r Bil yw lefel y manylion sydd wedi eu gadael ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

## Pryderon nad yw'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi'r broses newydd

Mae llawer o randdeiliaid yn mynegi pryder **na fydd yr adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi'r broses newydd.** Dyma a ddywed y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru:

> …LPA departments are significantly underfunded, and research shows that planning services are suffering most severely of all local government services due to budget cuts… we believe that resourcing and expertise in the public sector, including Welsh Government, [local planning authorities (LPAs) and local authorities more widely e.g. highways departments, NRW and other statutory consultees, is currently a key barrier to timely decision making and delivery of projects.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chyngor Sir Ynys Môn hefyd yn codi pryderon am adnoddau. Mae Cyngor Dinas Casnewydd

yn nodi y bydd y ffaith bod prosiectau'n dilyn y broses gydsynio newydd yn cymryd ffioedd i ffwrdd o awdurdodau cynllunio lleol yn y lle cyntaf, ac eto y bydd [y broses yn ei gwneud] yn ofynnol i'r awdurdodau hynny gyfrannu'n sylweddol.

Ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n hanfodol darparu **canllawiau a hyfforddiant** i bawb sy'n defnyddio'r broses newydd i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae EDF Energy yn **awgrymu y dylai fod adnodd canolog o arbenigwyr** ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a datblygwyr. Mae'n dweud ei bod yn afrealistig disgwyl i bob awdurdod cynllunio lleol gael yr arbenigedd mewnol angenrheidiol ac mae'n awgrymu y gallai'r drefn o gael cronfa o arbenigwyr sy'n gweithredu ar sail adennill costau llawn fod yn fwy cost effeithiol.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, **dywedodd** y Gweinidog Newid Hinsawdd fod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i rannu arbenigedd a'i bod yn darparu rhywfaint o gymorth i awdurdodau os bydd rywbeth yn codi nad ydynt erioed wedi ymdrin ag ef o'r blaen. Awgrymodd y dylai fod gan awdurdodau cynllunio lleol ddigon o adnoddau.

## Cymorth cyffredinol i gategorïau prosiectau seilwaith arwyddocaol

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r categorïau ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol a geir yn y Bil. Fodd bynnag, roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a nifer o randdeiliaid yn y sector ynni, sef Bute Energy, RWE Renewables ac Ynni Glan, yn **nodi'r ffaith nad oes unrhyw gyfeiriad at brosiectau hydrogen**. Mae Wales and West Utilities yn dweud bod hyn yn enghraifft o 'golli cyfle'.

Mae'r Athro Hannah Hickman yn nodi nad oes diffiniad o gynlluniau **storio ynni** (ac eithrio storio nwy hylifol) yn y Bil. Mae hi'n awgrymu y bydd storio ynni yn dod yn fwyfwy pwysig, ac felly y gallai fod yn broblem hepgor hyn. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn dweud y dylai cynlluniau storio ynni gael eu heithrio'n benodol er mwyn osgoi amheuaeth.

Mae Cyngor Sir Penfro yn cefnogi'r farn mai **awdurdodau cynllunio lleol a ddylai benderfynu ar geisiadau cynhyrchu ynni o dan 50 Megawatt (MW)**. O dan y Bil , byddai prosiectau cynhyrchu ynni o rhwng 10 a 49 MW, sy'n cael eu cydsynio ar hyn o bryd drwy'r drefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, yn cael eu cydsynio gan awdurdodau cynllunio lleol, yn hytrach na thrwy'r drefn gydsynio newydd. Mae Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn tynnu sylw at yr effaith bosibl ar

adnoddau awdurdodau cynllunio lleol.

## Diffinio "arwyddocaol"

Mae'r Athro Hannah Hickman yn tynnu sylw at y ffaith **nad oes diffiniad o'r term "arwyddocaol" yn y Bil na'r Memorandwm Esboniadol.** Mae o'r farn y dylid cynnwys diffiniad, o ystyried bod rhai trothwyon yn y Bil yn ymwneud â maint gweithrediadau, rhai yn ymwneud â chapasiti a rhai yn ymwneud â mesuriadau fel hyd. Mae'n gofyn a ddylai "arwyddocaol" gwmpasu effaith trydydd parti neu effaith y gwasanaeth y mae prosiect yn ceisio ei ddarparu.

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn ategu hyn, gan alw am fwy o eglurder ynghylch y dystiolaeth sy'n sail i'r trothwyon. Mae'n dweud y byddai hyn yn ddefnyddiol er mwyn deall a ystyriwyd ffactorau fel maint ac effaith, yn hytrach na mesuriadau safonol.

## Trothwyon dewisol

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn gofyn a yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu nodi haen o **drothwyon a meini prawf dewisol ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol** mewn canllawiau yn achosi amwysedd yn y system. Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen meini prawf clir a chyson yn sail i hyn, ac y dylai pawb gael rywfaint o sicrwydd ynghylch pa drefn gydsynio sy'n briodol ar gyfer unrhyw brosiect seilwaith penodol.

## Pwerau i gyfarwyddo

Mae NFU Cymru yn pryderu am **lefel y disgresiwn a roddir** i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod prosiect na fyddai'n ddarostyngedig fel arall i'r broses yn brosiect seilwaith arwyddocaol, neu i'r gwrthwyneb. Mae'n nodi nad oed unrhyw feini prawf (ar wyneb y Bil) o ran yr amgylchiadau pryd y gellir defnyddio'r pwerau hyn.

Mae RWE Renewables yn galw am gynnwys terfyn amser statudol yn y Bil. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod Deddf 2008 yn cynnwys darpariaeth o'r fath. Mae Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau yn cytuno bod angen hyn.

Fodd bynnag, mae Trafnidiaeth Cymru yn croesawu'r lefel o ddisgresiwn a roddir yn y Bil. Mae'n awgrymu y byddai llawer o'i brosiectau yn annhebygol o fodloni'r diffiniad o brosiect seilwaith arwyddocaol, ond gan fod y prosiectau hyn yn aml yn cael eu hystyried yn gymhleth iawn ac yn gymharol gostus i'r cyhoedd, gallai

fod yn ddymunol eu trin felly. Mae Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain hefyd yn cefnogi hyblygrwydd o'r fath.

## Barn gymysg o ran nodi amserlen statudol o 52 wythnos ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau

Mae Trafnidiaeth Cymru ac Ynni Morol Cymru yn croesawu cyflwyno amserlen o 52 wythnos. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn nodi pwysigrwydd **sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni amserlenni o'r fath.**

Mae Scottish Power Renewables yn dadlau mai **terfyn y dylai'r cyfnod o 52 wythnos fod yn hytrach na tharged** ac y gellir penderfynu ynghylch rhai ceisiadau llai llawer yn gyflymach. Ar y llaw arall, cred Ymddiriedolaethau Natur Cymru fod dadl gref iawn dros **neilltuo mwy o amser i ystyried prosiectau seilwaith mawr**. Mae'n dweud na ddylid canolbwyntio'n unig ar ba mor gyflym y caiff cydsyniad ei roi wrth asesu a fu'r broses yn llwyddiannus ai peidio.

Mae Ashfords LLP yn mynegi pryder, yn sgil ei brofiad o brosiectau o'r fath, y bydd yr amserlen o 52 wythnos yn cael ei methu yn rheolaidd. Er bod y Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru estyn yr amserlen hon, awgryma Ystad y Goron fod **angen eglurder ynghylch y cyfnod mwyaf o amser y gellir estyn yr amserlen**.

Mae Bute Energy yn nodi, o dan y broses gydsynio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (a sefydlwyd gan Ddeddf 2008), pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn estyn y terfyn amser ar gyfer penderfynu ar gais (ar ôl cael adroddiad gan Arolygydd), yna byddai'n rhaid gwneud datganiad yn Senedd y DU yn nodi terfyn amser newydd. Mae'n dadlau bod hyn yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr etholedig graffu ar benderfyniadau o'r fath ac y dylai'r Bil gynnwys gofyniad tebyg. Y gofyniad a geir ar hyn o bryd yn y Bil yw bod Gweinidogion Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd bob blwyddyn ar berfformiad o gymharu â'r amserlen 52 wythnos, ac mae'n awgrymu nad yw hynny'n ddigonol.

### Camau'r broses

Mae Bute Energy hefyd yn dadlau y dylai'r Bil gynnwys **amserlenni statudol ar gyfer pob cam o'r broses**, fel y cafwyd yn Neddf 2008**.**

Mae nifer o randdeiliaid hefyd yn cyfeirio at Ddeddf 2008 mewn perthynas â dilysu cais. Mae Kelvin MacDonald, Uwch Gymrawd Gwadd ym Mhrifysgol Caergrawnt, yn nodi bod adran 55 o Ddeddf 2008 yn caniatáu i Arolygydd ystyried a yw'r deunydd a gyflwynwyd yn ddigon cynhwysfawr i gynnal archwiliad ystyrlon. Mae'n

awgrymu y byddai'n ddefnyddiol cael darpariaeth debyg yn y Bil.

Dadleua RWE Renewables o blaid **cynnwys cyfnod statudol o amser ar gyfer dilysu ceisiadau**. Mae Lightsource, Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain ac NFU Cymru yn cefnogi hyn, ac mae NFU Cymru yn dadlau y dylai'r cyfnod hwn fod yn 28 diwrnod.

## Dryswch ynghylch statws a hierarchaeth polisïau cynllunio

Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid penderfynu ar geisiadau yn unol ag unrhyw ddatganiad polisi sy'n gysylltiedig â'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (**Cymru'r Dyfodol** ar hyn o bryd) lle bo'n berthnasol a chynllun morol Gweinidogion Cymru (**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** ar hyn o bryd) lle bo hynny'n berthnasol. Pan fo darpariaeth mewn datganiad polisi perthnasol yn anghydnaws â darpariaeth yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol neu'r cynllun morol, rhaid penderfynu ar y cais yn unol â'r datganiad polisi perthnasol.

Mae Kelvin MacDonald yn awgrymu mai dyma **un o rannau pwysicaf y Bil, ond bod perygl iddo fod yn ddryslyd ac yn heriol yn ymarferol**. Mae'n nodi, er y bydd datganiadau polisi yn cael blaenoriaeth, nad yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth o ran ffurf y datganiadau hyn na'r **broses ar gyfer eu mabwysiadu**. O dan y Bil, ni fyddai'n ofynnol i'r datganiadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd. O ystyried pwysigrwydd y dogfennau hyn, mae'n awgrymu efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried a ddylai gofyniad o'r fath fod ar wyneb y Bil.

Yn yr un modd, dyma a ddywed yr RSPB:

> ...it does not appear that [infrastructure policy statements] will be subject to any kind of public consultation, sustainability appraisal or scrutiny by the Senedd (as national policy statements are in the UK Parliament) but simply designated by Ministers.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ategu'r farn hon. Er bod y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn dweud ei bod yn bwysig nad yw datganiadau o'r fath yn tanseilio'r polisi cenedlaethol sefydledig a geir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn yn gofyn beth fydd yn digwydd o ran Cynlluniau Datblygu Strategol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae'r Athro Hannah Hickman yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru **nodi'n glir pa ddatganiadau polisi sydd yn yr arfaeth.** Dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd wrth y Pwyllgor yn flaenorol **nad oedd Llywodraeth Cymru yn paratoi**

**unrhyw ddatganiadau o'r fath ar hyn o bryd** gan nad oedd yn ymwybodol o unrhyw fylchau polisi. Fodd bynnag, dyma y mae Kelvin MacDonald yn ei awgrymu:

> …a number of categories of SIPs, such as…radioactive waste geological disposal are not covered [by the NDF] in policy terms. Therefore, unless a comprehensive set of infrastructure policy statements are produced, there will be a policy void. There could also be a policy void if Welsh Ministers exercised their powers…to bring other schemes into the regime of a type for which no infrastructure policy statement existed.

## Safbwyntiau cymysg o ran y disgresiwn a roddir i Awdurdodau Archwilio

Mae NFU Cymru yn mynegi pryderon ynghylch y disgresiwn a roddir yn y Bil i'r Awdurdod Archwilio bennu'r dull ar gyfer archwilio cais – gweithdrefnau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad. Dywed RWE Renewables y bydd hyn yn ei wneud yn **anodd i ymgeiswyr gael syniad ymlaen llaw o'r costau a'r adnoddau** sy'n debyg o fod yn ofynnol o dan y drefn newydd.

Ar y llaw arall, mae Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain yn croesawu'r disgresiwn hwn, ac felly hefyd yr RSPB, er ei fod yn rhybuddio **bod angen i'r dull o archwilio fod yn gymesur ac yn briodol** i'r materion dan sylw

## Diffyg consenswss o ran pwy ddylai'r penderfynwr fod

Mae RWE Renewables yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil a fyddai'n caniatáu i naill ai'r Awdurdod Archwilio neu Weinidogion Cymru fod â'r swyddogaeth o benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Cred y byddai hyn yn golygu y **gellir gwneud penderfyniadau ar geisiadau llai cymhleth yn gynharach** na'r terfyn amser o 52 wythnos am benderfyniadau. Mae'r Grid Cenedlaethol yn cytuno â hyn.

Dywed yr RSPB na ddylid cyfyngu rôl Gweinidogion Cymru i lunio polisïau yn unig, ac mai nhw a ddylai fod â'r gair olaf o ran prosiectau seilwaith arwyddocaol, gan mai nhw sy'n **atebol yn wleidyddol** am roi cydsyniad. Mae NFU Cymru yn awgrymu y dylai'r Awdurdod Archwilio gyflwyno adroddiad ac argymhellion ar bob cais a gadael pob penderfyniad terfynol i Weinidogion Cymru.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awgrymu y dylai'r broses ganiatáu i awdurdod cynllunio lleol wrthwynebu os bydd o'r farn y byddai'n amhriodol defnyddio pwerau i ganiatáu i'r Awdurdod Archwilio wneud penderfyniad.

## Mae'r angen posibl am gamau gorfodi yn bryder i awdurdodau

## cynllunio lleol

Dywed y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, er y rhagwelir y bydd nifer yr achosion gorfodi yn fach iawn, mae'n bwysig cydnabod y **gallai fod pwysau sylweddol ar awdurdodau cynllunio lleol ar y cam gorfodi o ran costau ac amser swyddogion**.

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd bryderon ynghylch yr angen posibl am gamau gorfodi. Fel sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn, a ddywed:

> Compliance with terms of this type of consent is very important and extends potentially over considerable time. This raises considerable resourcing issues as it could…need significant technical input for the Council to be able to take effective steps to ensure compliance or [enforce] remedial action by a developer or subsequent operator.

## Dylid dysgu gwersi o ddeddfwriaeth debyg yn Lloegr

Noda RWE Renewables fod Llywodraeth y DU yn cynnal **adolygiad** o Ddeddf 2008 a'i bod wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ddiwygiadau gweithredol fel rhan o'i **Chynllun Gweithredu ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.** Mae'n awgrymu y gellir dysgu nifer o wersi o ran dylunio a gweithredu'r drefn newydd ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru.

Mae'r Athro Hannah Hickman yn ategu'r pwynt hwn. Mae'n dweud bod ymchwil i'r drefn yn Lloegr wedi dangos bod angen nifer sylweddol o gydsyniadau a thrwyddedau eilaidd o hyd cyn y gall datblygiad fwrw ymlaen i'r cam adeiladu, sy'n arwain at oedi a chostau pellach.

### Prosiectau trawsffiniol

Mae nifer o randdeiliaid hefyd yn tynnu sylw at yr effaith bosibl ar ddatblygwyr sydd â phrosiectau trawsffiniol. Awgryma Lightsource bp nad oes digon o fanylion ar hyn o bryd am sut y byddai prosiectau trawsffiniol yn cael eu cydsynio a **sut y bydd y trefniadau ar y naill ochr i'r ffin a'r llall yn rhyngweithio.**

Dywed Kelvin MacDonald y gallai ymgeiswyr wynebu gofynion a gweithdrefnau ychydig yn wahanol ar gyfer yr un dosbarth o gynllun yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr.

## Dylai'r drefn newydd sicrhau y cynhelir mesurau gwarchod amgylcheddol

Dywed yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod fod yn **rhaid sicrhau na fydd symleiddio'r broses gydsynio yn digwydd ar draul asesiadau amgylcheddol** neu'n arwain at wanhau mesurau gwarchod amgylcheddol. Mae Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o'r un farn.

Mae Kelvin MacDonald yn nodi bod trwyddedau amgylcheddol wedi'u hepgor o'r Bil, gan ofyn a ddylai'r cyfundrefnau trwyddedu hyn gael eu cynnwys yn y drefn newydd i sicrhau mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd. Dyma a ddywedodd:

> ...This reflection is drawn in part from my own experience of dealing with applications [in England] in which delays by Natural England or the Environment Agency in issuing such permits can lead to uncertainty as to whether the Examining Authorities recommendation is robust.

## Pwysigrwydd cynnwys y cymunedau yr effeithir arnynt

Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am ddefnyddio'r Bil i gryfhau rôl cymunedau yn y broses. Yn ei ymateb, noda Cymorth Cynllunio Cymru y materion a godir amlaf gan aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio ei wasanaethau mewn perthynas â phrosiectau seilwaith ar raddfa fawr. Mae hyn yn cynnwys y teimlad bod dwylo pobl wedi eu clymu erbyn i'r cyhoedd ddod yn ymwybodol o brosiect a'r teimlad na all y cyhoedd gymryd rhan lawn oherwydd cymhlethdodau.

Mae Solar Energy UK yn tynnu sylw at y ffaith y bydd manylion am sut y dylai datblygwyr gynnnal **ymgynghoriad cyn ymgeisio** yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Mae'n dweud bod hynny'n ddiwerth ac yn gofyn am fwy o fanylion ar wyneb y Bil.

Mae un aelod o'r cyhoedd a oedd yn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor yn awgrymu y dylid ystyried efallai bod pobl yn blino ar gymryd rhan mewn ymgyngoriadau. Dyma a ddywed:

> ...whilst a project may exceed the threshold and be designated [a SIP], that does not necessarily mean that extensive engagement is required-not least if it is development [already] designated within [the NDF]...

# Atodiad 1 – Ymatebion i'r ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Ashfords LLP (Saesneg yn unig) | Cyngor Dinas Casnewydd (Saesneg yn unig) |
| Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain (Saesneg yn unig) | NFU Cymru (Saesneg yn unig) |
| Cymdeithas Ymgynghorwyr a Pheirianwyr Cymru (ACE) (Saesneg yn unig) | Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Saesneg yn unig) |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (Saesneg yn unig) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Saesneg yn unig) |
| Bute Energy (Saesneg yn unig) | Cyngor Sir Penfro (Saesneg yn unig) |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Saesneg yn unig) | Cymorth Cynllunio Cymru (Saesneg yn unig) |
| Cwmni Egino (Saesneg yn unig) | Iechyd Cyhoeddus Cymru (Saesneg yn unig) |
| Comisiwn Dylunio Cymru (Saesneg yn unig) | Renewable UK Cymru (Saesneg yn unig) |
| EDF Energy (Saesneg yn unig) | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru (Saesneg yn unig) |
| Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (Saesneg yn unig) | Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (Saesneg yn unig): |
| Yr Athro Hannah Hickman, Prifysgol Gorllewin Lloegr (Saesneg yn unig) | RWE Renewables (Saesneg yn unig) |
| Unigolyn (Saesneg yn unig) | ScottishPower Renewables (Saesneg yn unig) |
| Unigolyn (Saesneg yn unig) | Solar Energy UK (Saesneg yn unig) |
| Unigolyn (Saesneg yn unig) | SP Energy Networks (Saesneg yn unig) |
| Cyngor Sir Ynys Môn (Saesneg yn unig) | Statkraft UK (Saesneg yn unig) |
| Kelvin MacDonald (Saesneg yn unig) | Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (Saesneg yn unig) |
| Lightsource bp (Saesneg yn unig) | Ystad y Goron (Saesneg yn unig) |
| Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau (Saesneg yn unig) | Trafnidiaeth Cymru (Saesneg yn unig) |
| MaresConnect Limited (Saesneg yn unig) | Wales & West Utilities (Saesneg yn unig) |

| | |
|---|---|
| Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (Saesneg yn unig) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Ynni Morol Cymru (Saesneg yn unig) | Dŵr Cymru |
| Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol (Saesneg yn unig) | Ymddiriedolaethau Natur Cymru (Saesneg yn unig) |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru (Saesneg yn unig) | Ynni Glân (Saesneg yn unig) |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Network Rail (Saesneg yn unig) | |